



O ganlyniad i'r cyfyngiadau ar sut rydym yn gweithredu oherwydd Covid-19, rydym yn rhedeg gwasanaeth atgyweirio brys yn unig ar hyn o bryd.

I gael ei drin fel argyfwng, mae'n rhaid bod y diffyg yn creu risg o anaf enbyd i denantiaid neu ddifrod sylweddol i eiddo. Dyma enghreifftiau o waith atgyweirio brys:

- nwy neu fygdarthau'n gollwng
- gosodiadau trydanol mewn cysylltiad â dŵr
- colli pŵer trydanol yn llwyr
- colli'r cyflenwad dŵr yn llwyr os na all y cwmni dŵr helpu'n uniongyrchol
- gollyngiad difrifol o system wresogi neu blymio
- toiled wedi blocio neu ddim yn fflysio, os nad oes toiled arall ar gael ac os nad yw'r mesurau a awgrymir i'r tenant yn gweithio h.y. arllwys dŵr iddo
- mae'r eiddo'n anniogel neu'n anhygyrch – gallai hyn gynnwys ffenestri wedi torri lle byddai angen estyll (byddai hyn yn berthnasol i eiddo gwag ynghyd ag eiddo â thenantiaid)
- gris wedi pydru neu dwll yn y llawr na ellir ei osgoi
- unrhyw lifftiau wedi torri i lawr y mae V2C yn gyfrifol amdanynt lle nad yw tenantiaid yn gallu defnyddio grisiau, neu lle maen nhw'n sownd yn y lifft
- larymau mwg sydd ddim yn gweithio (os oes batri, gall y tenant ei newid, os mai trydan, rhaid i V2C fynd yno)
- cawod cerdded i mewn os mai hon yw'r unig ffordd o fathio
- gwifrau trydan sy'n fyw neu'n noeth
- carthion yn gorlifo i mewn i'r cartref
- tanciau storio, silindrau neu beipiau wedi byrstio
- yr holl oleuadau neu oleuadau ystafell ymolchi yn methu. Gallai pob ystafell arall ddefnyddio lamp sydd gan y tenant yn barod, neu y gall V2C ei darparu dros dro
- systemau gwresogi yn methu mewn tywydd garw a lle nad oes dewis arall ar gael (1af Hydref i 30 Ebrill)
- goleuadau cymunedol yn methu
- gollyngiadau difrifol ar doeon – perygl o nenfwd yn dymchwel

Os ydych yn profi unrhyw rai o'r uchod, cysylltwch â ni ar unwaith fel y gallwn drefnu'r gwaith atgyweirio.

Gallwch weld diweddariadau pellach ar pryd fyddwn yn ailddechrau darparu ein gwasanaethau ar y wefan ac ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol.